UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**GWELLIANNAU'R A40 PENBLEWIN I GROESFFORDD MAENCOCH**

ARDDANGOSFEYDD GWYBODAETH I'R CYHOEDD

Dydd Llun 16 Rhagfyr 2019




## CYFLWYNIAD

- Mae Cefnffordd yr A40 yn gyswllt strategol pwysig i Orllewin Cymru, sy'n gwasanaethu Hwlffordd ac Aberdaugleddau, economi dwristiaeth canol a gogledd sir Benfro, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a'r porthladdoedd yn Aberdaugleddau ac yn Abergwaun.
- Cododd yr angen i wella'r A40 yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2004 pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniad yr astudiaeth o'r A40 i'r Gorllewin o Sanclêr, a ystyriodd welliannau i'r A40 rhwng Sanclêr a Hwlffordd.
- Diben yr arddangosfa yma yw i ofyn am eich barn am y gwelliannau arfaethedig rhwng cylchfan Penblewin a croesffordd Maencoch ar yr A40
- Bydd hefyd yn tynnu sylw at rannau o'r Cynllun a amlinellwyd lle mae opsiynau i addasu'r dyluniad yn cael eu hystyried gan dîm y prosiect ac yn rhoi cyfle i chi wneud sylwadau a rhoi adborth ar y broses hon.
- Dros y pedwar mis nesaf caiff y Cynllun ei ddatblygu er mwyn caniatáu i Orchmynion drafft gael eu cyhoeddi, gyda'r bwriad o ddechrau'r gwaith adeiladu yn 2021. Bydd eich adborth yn ein helpu i lywio gofynion cynllunio, mynediad lleol a gofynion tir cysylltiedig.
- Sylweddolwn y bydd adeiladu'r Cynllun yn effeithio ar gymunedau lleol, busnesau, yr amgylchedd a defnyddwyr ffyrdd fel ei gilydd a byddwn yn anelu at leihau hyn i'r eithaf.
- Yn ein barn ni, mae'n bwysig siarad â chymunedau a busnesau lleol ac rydym yn eich annog i gyflwyno'ch sylwadau mor fuan â phosibl fel y gallwn ddechrau mynd i'r afael â hwy.

## Y BROBLEM

- Mae prinder cyfleoedd i oddiweddyd yn arwain at amseroedd teithio annibynadwy ac yn achosi rhwystredigaeth i yrwyr.
- Mae achlysuron o gymdeithiau o gerbydau nwyddau trwm o'r porthlaoedd fferi a cherbydau amaethyddol sy'n symud yn araf yn cyfrannu at gyfnodau o blatonio ac amseroedd teithio annibynadwy. Mae hyn yn cael ei waethygu gan brinder o chyfleoedd i oddiweddyd.
- Mae adegau prysur tymhorol o ran nifer y cerbydau sy'n teithio ar hyd yr A40 yn ystod misoedd yr haf yn arwain at deithiau araf gan achosi amseroedd teithio annibynadwy. Mae hyn yn cael ei waethygu gan brinder o chyfleoedd i oddiweddyd.
- Mae'r rhan hon o ffordd yr A40 yn is na'r safonau dylunio diweddar.
- Mae llawer o gyffyrdd ffyrdd ymyl a mynedfeydd uniongyrchol i eiddo a chaeau amaethyddol o'r A40, sy'n cyfrannu at broblemau gweithredol ar hyd y ffordd.
- Mae cyfwlr gweledig gwael a chynllun cyffordd is-safonol yn gallu arwain at ddamweiniau ffordd difrifol.
- Yn gyffredinol, mae diffyg cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus strategol yn Sir Benfro yn golygu bod dibyniaeth ar y car preifat ar gyfer cysylltiadau rhyng-drefol.

## YR ATEB

- Y cynnig yw uwchraddio'r rhan hon, 1.8km o hyd, o'r A40 o'r cyffordd gyda Jacob's Park (i'r gorllewin o Gyffordd Maencoch) i cylchdro Penblewin i gerbytffordd tair lôn safonol fodern, gyda dwy lôn i un cyfeiriad ac un i'r cyfeiriad arall, wedi'i gwahanu gan lain 1m o led â llinellau wedi'u lliwio'n goch.
- Mae'r A477 o Ros-goch i Sanclêr a'r A40 o Benblewin i Barc Slebets yn enghreifftiau o'r drefn ffyrdd hon a gwblhawyd yn ddiweddar.
- Bydd y cynllun yn osgoi Croesffordd Maencoch a bydd y gerbytffordd newydd yn cael ei hadeiladu oddi ar y llinell, gan deithio i'r de o'r A40 presennol cyn cysylltu ar gylchdro Penblewin. Bydd y ffordd bresennol yn aros er mwyn rhoi mynediad i eiddo a ffyrdd lleol.

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Bydd eich adborth yn ein helpu i lywio gofynion cynllunio, mynediad lleol a gofynion tir cysylltiedig.


| Gweithgaredd | Dyddiadau Allweddol | Beth mae Hyn yn ei olygu? |
|---|---|---|
| Cyhoeddi Gorchmynion drafft a Datganiad Amgylcheddol | Dechrau 2020 | Bydd y rhain yn pennu'r tir a fyddai ei angen i adeiladu'r Cynllun a'r gwaith lliniaru amgylcheddol cysylltiedig. Byddai'n nodi manylion mynedfeydd lleol a darpariaeth Mynedfeydd Preifat. Caiff y cyhoedd gyfle wedyn i wrthwynebu neu gefnogi'r Cynllun yn ffurfiol, neu awgrymu cynnig amgen. |
| Ymchwiliad Cyhoeddus Posibl | Haf 2020 | Os bydd angen Ymchwiliad Cyhoeddus, bydd Arolygydd annibynnol yn gwrando tystiolaeth, gerbron y cyhoedd, gan bartïon a rhanddeiliaid â buddiant. Byddai'r Arolygydd yngwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru ar sut i fwrw ymlaen. |
| Penderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud Gorchmynion | Dechrau 2021 | Byddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu p'un ai i wneud Gorchmynion Statudol i fwrw ymlaen ag adeiladu'r Cynllun. |
| Penodi Contractwr Dylunio ac Adeiladu | Dechrau 2021 | Byddai contractwr yn ymgymryd â dyluniad manwl ac adeiladu'r Cynllun. |
| DechrauAdeiladu ar y Safle | Gwanwyn 2021 | Byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau. |
| Gwelliannau'r A40 yn cael eu hagor | Diwedd 2022 | Byddai'r ateb a ffefrir yn cael ei roi ar waith a'i agor i'r cyhoedd. |

## AMCANION ALLWEDDOL

- Cynyddu cydnerthedd y rhwydwaith a gwella hygyrchedd ar hyd y coridor trafnidiaeth o’r dwyrain i’r gorllewin i gyflogaeth allweddol, cymunedau a chyrchfannau twristiaeth.
- Gwella ffyniant a chynnig mynediad gwell i dref sirol Hwlffordd, Ardal Fenter Dyfrfford y Ddau Gleddau a phorthladdoedd Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro yn y gorllewin.
- Lleihau achosion lle caiff cymunedau eu gwahanu gan y ffordd a darparu buddiannau o ran iechyd ac amwynder.
- I wella diogelwch (a diogelwch canfyddedig) Cyffordd Croesffordd Maencoch a lleihau nifer a difrifoldeb y gwrthdrawiadau.
- Hyrwyddo dulliau teithio llesol drwy feicio, marchogaeth a cherdded er mwyn rhoi cyfleoedd i fyw bywydau iach.
- Darparu cynllun sy’n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac sy’n integreiddio â’r rhwydwaith trafnidiaeth lleol er mwyn cysylltu cymunedau lleol â chanolfannau trafnidiaeth allweddol yn well.
- Darparu prosiect sy’n gynaliadwy mewn Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang, gan gymryd camau i leihau neu wrthbwyso gwastraff a charbon.
- Rhoi ystyriaeth ddyledus i effaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd a gwneud gwelliannau pan fo hynny’n ymarferol.

### BETH SYDD WEDI’ WNEUD ERS YR ARDDANGOSFA DWETHAF?

- Adolygu adborth o’r Ymgynghoriad Cyhoeddus a chynnwys newidiadau yng ngosodiad y Cynllun.
- Cyhoeddi llwybr a ffefrir.
- Datblygu gosodiadau cyffyrdd a chynigion ffyrdd ymyl.
- Cynnal asesiadau amgylcheddol.
- Datblygu mynedfeydd preifat ac ymgysylltu â thirfeddianwyr.
- Ystyried Mesurau Teithio Llesol.




### Trosbont Croesffordd Maencoch

- Pont newydd ar gyfer y B4313 dros ffordd gerbydau arfaethedig yr A40.
- Bydd yn darparu cysylltedd rhwng y gogledd a’r de a mynediad i ffordd gerbydau bresennol yr A40.

### Cyffordd Croesffordd Maencoch

- Yn dilyn adborth gan y cyhoedd, rydym wedi cynnwys mynediad sy’n gwynebu i’r gorllewin wrth Groesffordd Maencoch.
- Trefniant y gyffordd i gysylltu â ffordd bresennol y B4313 Redstone Road.
- Mynedfa ac allanfa i’r gorllewin (Hwlffordd), symudiadau dwyreiniol i’w gwahardd.

### Yr A40 Bresennol


- Byddai’r A40 bresennol yn parhau i fodoli, ond ni fydd yn gefnffordd mwyach.
- Yn dilyn adborth gan y cyhoedd, mae mesurau Teithio Llesol yn cael eu hystyried yn rhan o’r cynigion.
- Bydd y llwybr hwn yn darparu mynediad i’r gogledd o Arberth.

### Ffordd Gerbydau Arfaethedig yr A40


- Cyfluniad ffordd unffrwd 2+1.
- Darperir lôn oddiweddyd tua’r gorllewin am 1.2km.

### Cylchfan Penblewin

- Ailfodelu Cylchfan Penblewin (cylchfan 6 braich).
- Pwynt cysylltu â Gwelliannau’r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin.
- Mynediad i Faencoch a man i’r gogledd o Arberth trwy’r A40 bresennol (sydd i’w hisraddio).




Trawstoriad Arferol 1 - Priffordd mewn Toriad




Trawstoriad Arferol 2 - Priffordd ar Arglawdd

## RHAGOR O WYBODAETH

- Bydd Martin Gallimore (Swyddog Cyswllt y Cyhoedd) yn hapus i helpu gydag unrhyw gwestiynnau. Mae o ar gael yn neuadd y pentref Llanddewi Felffre ar ddyddiau Iau rhwng 10yb a 4yh. Gelli’r hefyd cysylltu ag ef drwy ffon (07923 887 119) neu ebost ar A40enquiries@arup.com
- Mae gwybodaeth am y cynllun hwn ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/a40-penblewin-i-groesffordd-maencoch